WOW

2016 WALES ONE WORLD FILM FESTIVAL
GŴYL FFILM CYMRU A'R BYD YN UN

Tanna

Thursday 10 - Thursday 17 March
Dydd Iau 10 - Dydd Iau 17 Mawrth

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
**ABERYSTWYTH** ARTS CENTRE

# WELCOME TO WOW 2016

WOW Film Festival returns with our usual intriguing, amazing selection of world cinema for you to enjoy.

Once again WOW will be covering the globe from the mountains of Albania (***Sworn Virgin***), via the dusty back roads of Brazil (***Neon Bull***) to the idyllic tropical Pacific island of Vanuatu (***Tanna***) showing films that have picked up prizes at major festivals around the world.

This year there's a rare chance to see a terrific Russian silent movie - ***Arsenal*** - with a magnificent live musical accompaniment that brings out the emotional impact of the beautifully composed black & white images. Don't miss what's sure to be an enthralling evening.

Look out for films marked with the new '**F-Rating**' and join us in supporting women in world cinema. Compared with British and American film, world cinema has a far higher proportion of female directors, writers and significant female roles.

**David Gillam**
Wales One World Film Festival Director
Cyfarwyddwr Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un

# CROESO I WOW 2016

Mae Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un yn dychwelyd gyda'n detholiad arferol o sinema afaelgar, ryfeddol y byd i chi ei fwynhau.

Unwaith eto bydd WOW yn rhychwantu'r byd o mynyddoedd Albania (***Sworn Virgin***), trwy heolydd gwledig llychlyd Brasil (***Neon Bull***) i Vanuatu, yr ynys drofannol ddelfrydol yn y Môr Tawel (***Tanna***) gan ddangos ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau yng ngwyliau mawreddog ar draws y byd.

Eleni mae 'na gyfle prin i weld ffilm fud wych o Rwsia (***Arsenal***) gyda chyfeiliant cerddorol byw ysblennydd sy'n atgyfnerthu effaith emosiynol y delweddau du a gwyn a luniwyd yn gelfydd. Peidiwch â cholli'r hyn a fydd yn sicr o fod yn noson gyfareddol.

Edrychwch am ffilmiau sydd wedi marcio gyda'r '**Statws F**' newydd ac ymunwch â ni i gefnogi menywod yn sinema'r byd. O'i chymharu â ffilmiau o Brydain ac America, mae gan sinema'r byd gyfran llawer yn uwch o gyfarwyddwyr ac ysgrifenwyr benywaidd a rolau benywaidd blaenllaw.

## WOW FESTIVAL PASS £50*
(£40 concessions)

*Offer excludes *Arsenal*, but WOW Festival Pass holders can book for *Arsenal* at the concessionary rate

## PAS GŴYL FFILM WOW £50*
(£40 consesiynau)

*Cynnig yn eithrio *Arsenal*, ond gall deiliaid Pas Gŵyl WOW archebu tocynnau ar gyfer *Arsenal* ar y gyfradd gonsesiynol.

@WOWFILM /WOWFILMFEST
WWW.WOWFILMFESTIVAL.COM

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

**Dosbarth mesitr Ed Talfan & Gareth Bryn Masterclass, 4pm/yp**

# YR YMADAWIAD / THE PASSING (15)

**+ Q&A**
**+ Sesiwn holi ac ateb**

Director / Cyfarwyddwr: Gareth Bryn
Starring / Yn serennu: Mark Lewis Jones, Annes Elwy, Dyfan Dwyfor
Cymru / Wales, 2015, 108', Cymraeg gydag isdeitlau Saesneg / Welsh with English subtitles

## Thursday 10 8.15pm

With its rising sense of dread this is a moody, masterful melodrama with a killer twist. When young couple on-the-run Sara and Iwan crash their car into a stream near a remote farmhouse they're rescued by dogged loner Stanley. Shot near Tregaron, the world they're caught in is damp and rainy. Inevitably the young lovers disrupt Stanley's solitary existence. But he helps them with a stoical mixture of gentle goodwill and long-suffering patience, until secrets are revealed and the temperature rises. It's rare indeed to see a Welsh-language genre pic with such a subtle political subtext. So thumbs up to the *Hinterland* crew for their achievements with this gorgeously filmed, powerfully acted ghost story.

## Nos Iau 10 8.15yh

Gyda'i hymdeimlad cynyddol o arswyd, mae hon yn felodrama oriog, meistrolgar gyda throad angheuol. Pan mae Sara ac Iwan, par ifanc ar ffo, yn gyrru eu car i nant ger ffermdy anghysbell, cânt eu hachub gan Stanley, dyn encilgar. Wedi ei ffilmio ger Tregaron, mae'r byd maent yn rhan ohono yn llaith ac yn lawog. Yn anochel mae'r cariadon ifanc yn torri ar draws bodolaeth unig Stanley. Ond mae'n eu helpu gyda chymysgedd stoicaidd o ewyllys dda addfwyn ac amynedd, nes bod cyfrinachau'n cael eu datgelu ac mae'r tymheredd yn codi. Mae'n beth prin i weld ffilm iaith Gymraeg genre gyda'r fath is-destun gwleidyddol cynnil. Felly llongyfarchiadau i griw *Y Gwyll* am eu cyflawniadau gyda'r stori ysbryd hon sy'n cynnwys ffilmio hyfryd ac actio nerthol.

***"extremely well-done"*** Nia Edwards-Behi
***"A magnetic, slow-building ghost story."*** Hollywood Reporter

**Q&A with director, producer/scriptwriter & cast after the film.**
**Sesiwn Cwestiynu a Holi gyda'r cyfarwyddwr, cynhyrchydd/ysgrifennwr sgript a chast**

# RAMS (15 TBC)

Director / Cyfarwyddwr: Grímur Hákonarson
Starring / Yn serennu: Sigurður Sigurjónsson, Theodór Júlíusson, Charlotte Boving
Iceland / Gwlad yr Iâ, 2015, 93 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

## Friday 11 5.45pm & Wednesday 16 2.30pm

An endearing story of love, loss and forgiveness set against the backdrop of the magnificent Icelandic landscape. On neighbouring farms in a remote valley two warring brothers tend to their prized sheep. They haven't spoken to one another in over forty years. Each as stubborn as the other, Gummi and Kiddi communicate only via notes dutifully delivered by their sheep dog. But can they end their feud when disaster strikes their beloved sheep? With its wry humour, generous spirit, and close observation of human foibles, Rams shows just how far two men's deep connection to their animals can go.

## Nos Wener 11 5.45yh & ddydd Mercher 16 2.30yp

Stori hoffus am gariad, colled a maddeuant wedi ei gosod yn erbyn cefndir tirlun godidog Gwlad yr Iâ. Ar ffermydd cyfagos mewn dyffryn anghysbell mae dau frawd cynhennus yn gofalu am eu defaid gwerthfawr. Nid ydynt wedi siarad â'i gilydd am dros ddeugain mlynedd. Y naill mor ystyfnig â'r llall, mae Gummi a Kiddi yn cyfathrebu trwy nodiadau'n unig sy'n cael eu cludo'n ffyddlon gan eu cŵn defaid. Ond a allant ddiweddu eu cynnen pan mae trychineb yn dod i ran eu defaid annwyl? Gyda'i hiwmor sych, ysbryd hael, ac arsylwi craff ar wendidau dynol, mae Rams yn dangos yn gywir pa mor bell mae cysylltiad dwfn dau ddyn at eu hanifeiliaid yn ymestyn.

***"Wonderfully wry, charmingly understated comic moments"*** Variety
***"As curiously captivating as the bleak landscape"*** The Guardian

**Winner of Un Certain Regard at Cannes Film Festival 2015**
**Enillydd Un Certain Regard yng Ngŵyl Ffilm Cannes 2015**

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

# PATHS OF THE SOUL (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Zhang Yang
Starring / Yn serennu: Nyima Zadui, Yang Pei, Tsring Chodron
Tibet, 2015, 115 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

## Friday 11 8.15pm

If you want to be totally immersed in Tibetan culture this absorbing film is for you. Rising before dawn to light the fire and load up the yaks, the inhabitants of a remote Himalayan village plan their pilgrimage to visit the sacred sites in Lhasa. At a gentle pace we follow the dozen hardy souls on their incredible journey through sunshine, snow, mud and rain as they prostrate themselves every few yards for over 1000 miles. Trucks whizz by, they pitch their tent beside the road, chip ice from a frozen river for tea, and trundle stoically through the mountains. Tiny serene figures in an immense landscape, they readily express their joy in the simple pleasures of life. This is a fascinating glimpse into another world.

## Nos Wener 11 8.15yh

Os ydych am ymdrochi'n llwyr mewn diwylliant Tibet yna bydd y ffilm gyfareddol hon yn plesio. Gan godi cyn y wawr i gynnau tân a llwytho'r iaciaid, mae trigolion pentref anghysbell yn y Mynyddoedd Himalaya yn cynllunio eu pererindod i ymweld â safleoedd sanctaidd yn Lhasa. Yn hamddenol, dilynwn y dwsin enaid gwydn ar eu siwrnai ryfeddol trwy heulwen, eira, llaid a glaw wrth iddynt ymostwng eu hunain pob rhyw ychydig llath am dros fil o filltiroedd. Mae tryciau'n hedfan heibio, codant babell wrth ochr y ffordd, maent yn tolcio iâ o afon rewedig i wneud te, ac ymlusgo'n stoicaidd trwy'r mynyddoedd. Ffigyrau bach llonydd mewn tirwedd enfawr, mynegant yn llawen eu gorfoledd mewn pleserau syml bywyd. Dyma i chi gipolwg hynod ddiddorol i fyd arall.

***"a stirring salute to their deep-rooted spiritual devotion and quiet determination."***
Screen International

# LAMB (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Yared Zeleke
Starring / Yn serennu: Rediat Amare, Kidist Siyum, Welela Assefa
Ethiopia/France/Germany/Norway/Ffrainc /Yr Almaen/Norwy, 2015, 94 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

## Saturday 12 2.15pm

Set in the fabulously beautiful Ethiopian Highlands, this delightful film gives us a multi-layered portrait of village life amongst subsistence farmers. It's the story of young Ephraim, who is left with his tyrannical uncle while his father looks for work. Alone in an unfamiliar world, Ephraim's constant companion is his pet sheep, apparently destined for the pot. Simply told through the eyes of the boy, there's rather more going on than initially appears. Though it's a fiercely patriarchal society, it's Ephraim's lively grandmother, Emama, who reigns over the household. This charming story about growing up in a land where everyone is short of food has an undeniable ring of authenticity.

## Dydd Sadwrn 12 2.15yp

Wedi ei gosod yn Ucheldiroedd hynod brydferth Ethiopia, mae'r ffilm hyfryd hon yn cyflwyno portread aml-haenog o fywyd pentrefol ymhlith ffermwyr ymgynhaliol. Stori Ephraim ifanc ydyw, sy'n cael ei adael gyda'i ewythr gormesol tra bod ei dad yn chwilio am waith. Ar ei ben ei hun mewn byd anghyfarwydd, cydymaith cyson Ephraim yw ei ddafad anwes - bydd yn ôl pob tebyg yn cael ei fwyta. Wedi ei hadrodd yn syml trwy lygaid bachgen, mae 'na fwy yn digwydd nac ymddengys ar yr olwg gyntaf. Er ei bod yn gymdeithas batriarchaidd gref, Emama, mam-gu fywiog Ephraim sy'n teyrnasu dros y teulu. Mae gan y stori ddymunol hon am fagwraeth mewn gwlad lle nad oes gan unrhyw un ddigon o fwyd dinc o ddilysrwydd diamheuol.

# COURT (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Chaitanya Tamhane
Starring / Yn serennu: Usha Bane, Vivek Gomber, Pradeep Joshi
India, 2014, 116 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

## Saturday 12 5.30pm

With its superbly understated script, brilliant ensemble cast of professional and non-professional actors, and a naturalist approach that reveals the characters in all their complexity this is a riveting portrait of contemporary India. An ageing folk singer is accused of "abetting of suicide" when a sewerage worker is found dead in Mumbai. An affecting mix of absurdist comedy and engrossing tragedy, this paints a rich portrait of Indian society by showing not just the trial, but also the private lives of the lawyers and the judge too. By revealing the bureaucracy, caste prejudice, and routine corruption, this creates a quietly devastating indictment of the Indian justice system.

## Nos Sadwrn 12 5.30yh

Gyda'i sgript gynnil hyfryd, cast ensemble gwych o actorion proffesiynol ac amatur ac ymagwedd naturiaethol sy'n datgelu holl gymhlethdod y cymeriadau, mae hon yn bortread gafaelgar o India gyfoes. Caiff canwr gwerin sy'n heneiddio, ei gyhuddo o "gynorthwyo hunanladdiad" pan ddarganfu gweithiwr carthffosiaeth yn farw ym Mumbai. Cymysgedd teimladwy o gomedi abswrd a thrasiedi gafaelgar, mae'r ffilm hon yn paentio portread cyfoethog o gymdeithas India trwy ddangos nid yn unig y treial, ond hefyd bywydau preifat y cyfreithwyr a'r barnwr. Trwy ddatgelu'r fiwrocratiaeth, rhagfarn cast, a'r llygredd rheolaidd, caiff ditiad tawel dychrynllyd ei greu ar system gyfreithiol India.

***"A masterpiece - a work of the deepest empathy, sublime in its construction."***
Joshua Oppenheimer, director of/cyfarwyddwr *The Act of Killing*

**Winner of 15 Festival Awards including Golden Lotus for Best Film at India's National Film Awards and Horizons Award at Venice Film Festival**
**Enillydd 15 Gwobr mewn Gwyliau gan gynnwys y Golden Lotus ar gyfer y Ffilm Orau yng Ngwobrau Ffilm Cenedlaethol India a Gwobr Gorwelion yng Ngŵyl Ffilm Fenis 2015**

# OUR LITTLE SISTER (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Hirokazu Kore-eda
Starring / Yn serennu: Ayase Haruka, Nagasawa Masami, Kaho
Japan/Siapan, 2015, 128 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

F
RATED

## Saturday 12 8.00pm

With his amazing ability to get natural performances from his cast, the brilliant Kore-eda (*I Wish, Still Waiting*) creates a real sense of family life unfolding while touching lightly on emotional issues we all face. When their father dies, three sisters take in their younger half-sister who they meet for the first time at his funeral. There's the responsible older sister, a fun-loving good-time girl, and a goofy youngest, all sharing their grandmother's old house. As we observe their daily lives the film touches on themes of stolen childhood, family ties and responsibility. Perfectly pitched thanks to four beautiful lead performances, this delicately observed story of sisterly solidarity is full of quiet joy and simple pleasures.

## Nos Sadwrn 12 8.00yh

Gyda'i allu rhyfeddol i annog perfformiadau naturiol o'i gast, mae'r ffantastig Kore-eda (*I Wish, Still Waiting*) yn creu ymdeimlad o fywyd teuluol sy'n datblygu wrth gyffwrdd yn ysgafn ar faterion emosiynol byddwn oll yn eu hwynebu. Pan mae eu tad yn marw, mae tair chwaer yn gofalu am eu hanner chwaer y maent yn ei chyfarfod am y tro cyntaf yn ei angladd. Mae'r chwaer hynaf yn gyfrifol, yna daw'e chwaer chwareus sy'n mwynhau hwyl a sbri, ac yna'r un ifancaf digrif, y cwbl yn rhannu hen dŷ eu mam-gu. Wrth i ni arsylwi eu bywydau beunyddiol mae'r ffilm yn cyffwrdd ar themâu o blentyndod coll, rhwymau teuluol a chyfrifoldeb. Wedi ei hanelu'n berffaith gan ddiolch i bedwar perfformiad arweiniol gwych, mae'r stori graff gain hon am gadernid chwiorydd yn llawn gorfoledd tawel a phleserau syml.

***"a seductive and engrossing celebration of family"*** Sight & Sound

**Winner of the Audience Award San Sebastian Film Festival 2015**
**Enillydd Gwobr y Gynulleidfa Gŵyl Ffilm San Sebastian 2015**

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

# GYPSY (15)

Director / Cyfarwyddwr: Martin Sulík
Starring / Yn serennu: Jan Mizigar, Miroslav Gulyas, Martina Kotlarova
Slovakia, 2011, 100 minutes/munud subtitles/isdeitlau

## Sunday 13 6.00pm

Life is tough for introspective Romani teenager Adam when his father is murdered and his menacing uncle Zigo marries his grieving mother without delay. This triggers a Hamlet-inspired storyline that diverges in subtle ways from Shakespeare's plot. The icy hostility between the Gypsies and wider society is explored through brutal encounters with the police and hospital staff. While Uncle Zigo preaches his ruthless criminal code, Adam tries to find a path of his own. But when Adam tries to do the right thing for his family he soon comes into conflict with the unwritten laws of his own community. A powerful, authentic, beautifully told tale of Romani life on the edge.

## Nos Sul 13 6.00yh

Mae bywyd yn anodd i Adam, crwt Romani mewnsyllgar yn ei arddegau pan gaiff ei dad ei lofruddio ac mae ei ewythr bygythiol Zigo yn priodi ei fam alarus heb oedi, gan sbarduno stori sy'n dwyn ysbrydoliaeth o Hamlet ac sy'n dargyfeirio mewn ffyrdd cynnil o blot Shakespeare. Caiff yr elyniaeth oeraidd rhwng y Sipiwn a'r gymdeithas ehangach ei archwilio trwy gyfarfodydd ciaidd gyda'r heddlu a staff ysbyty. Tra bod Ewythr Zigo yn pregethu ei god troseddol didrugaredd, ceisia Adam ddod o hyd i lwybr ei hun. Ond pan mae Adam yn ceisio gwneud y peth iawn i'w deulu mae'n gwrthdaro yn erbyn cyfreithiau anysgrifenedig ei gymuned ei hun. Stori rymus, ddilys, sydd wedi ei hadrodd yn gelfydd am fywyd Romani ar yr ymylon.



# NEON BULL (15)

Director / Cyfarwyddwr: Gabriel Mascaro
Starring / Yn serennu: Juliano Cazarré, Maeve Jinkings, Aline Santana
Brazil/Brasil/Uruguay/Netherlands/Yr Iseldiroedd, 2015, 101 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

## Monday 14 5.45pm

Mascaro has a happy knack of creating magical, atmospheric films from the everyday lives of ordinary folk who dare to dream. A cowboy working the rodeos around the back roads of Brazil, Iremar knows there's more to life than his daily routine of bulls, dust and macho posturing. What he really likes doing is making glamorous dresses for his boss Galega. Beautifully shot to capture the rhythms of Iremar's life, this overflows with vitality and sly humour, creating a strong sense of the different characters. This beguiling, visually ravishing tale of sequins and sawdust upends conventional thinking about masculinity, sexuality, class and creativity and contains the most natural sex scene you're ever likely to see.

## Nos Lun 14 5.45yh

Mae gan Mascaro ddawn ddedwydd o greu ffilmiau hudol, llawn awyrgylch o fywydau beunyddiol pobl gyffredin sy'n mentro breuddwydio. Yn gowboi'n gweithio yn y rodeos o gwmpas ffyrdd gwledig Brasil, mae Iremar yn gwybod fod 'na fwy i fywyd na'i arfer dyddiol o deirw, llwch ac ystumiau *macho*. Yn anad dim hoffai creu ffrogiau moethus i'w fos Galega. Wedi ei ffilmio'n gelfydd i gipio rhythmau bywyd Iremar, gorlifa â bywiogrwydd a hiwmor cyfrwys, gan greu ymdeimlad cryf o'r gwahanol gymeriadau. Mae'r stori hudol, weledol ysblennydd hon am secwinau a blawd llif yn troi meddwl confensiynol am wrywdod, rhywioldeb, dosbarth a chreadigedd ar ei ben ac mae'n cynnwys yr olygfa rhyw mwyaf naturiol mae'n debyg y gwelwch erioed.

***"an unexpected delight, at times as carnal, sweaty and instinctive as its main characters but also playfully original and thought-provoking."*** Screen International

**Winner Venice Horizons Award - Special Jury Prize Venice Film Festival 2015**
**Enillydd Gwobr Gorwelion Fenis – Gwobr Arbennig y Beirniaid Gŵyl Ffilm Fenis 2015**

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

# THE PEARL BUTTON (12A TBC)

Director / Cyfarwyddwr: Patricio Guzman
Starring / Yn serennu: Gabriela Paterito, Cristina Calderon, Gabriela Salazar
Chile / France / Ffrainc / Spain / Sbaen, 2015, 104 minutes/mund, subtitles/isdeitlau

## Monday 14 8.15pm

Delighting in the beauty of Patagonia's volcanoes, mountains and glaciers, this extraordinary film will give you much to ponder. In the same lyrical vein as his wonderful *Nostalgia for The Light*, Guzman ruminates on astronomy, water, memory, and much else besides. Via a pearl button he links Pinochet's atrocities to the story of Jimmy Button, a native Amerindian taken to Europe in the 19th century. Effortlessly ranging from the cosmic to the microscopic, Guzman explores Chile's tortured history through many poignant interviews. Particularly moving is an elderly indigenous Patagonian woman, one of the last of a tribe of nomadic boat people whose language will soon disappear. Nobody else really makes films like this that express deeply humanist, spiritual ideas so effortlessly.

## Nos Lun 14 8.15yh

Yn ymhyfrydu yn harddwch folcanoau, mynyddoedd a rhewlifoedd Patagonia, mae'r ffilm ryfeddol hon yn rhoi tipyn i chi gnoi cul yn ei gylch. Yn yr un arddull delynegol a'i ardderchog *Nostalgia for The Light*, mae Guzman yn myfyrio ar seryddiaeth, dŵr, cof, a llawer mwy. Trwy fotwm perl mae'n cysylltu erchyllterau Pinochet â stori Jimmy Button, Amerindiad brodorol a'i dygwyd i Ewrop yn y 19eg ganrif. Gan symud yn ddiymdrech o'r cosmig i'r microsgopig, mae Guzman yn archwilio hanes dioddefus Chile trwy nifer o gyfweliadau ingol. Yn enwedig o drawiadol yw hen fenyw frodorol o Batagonia, un o'r diwethaf o lwyth o bobl cwch nomadig y bydd eu hiaith cyn hir yn diflannu. Nid oes unrhyw un arall yn gwneud ffilmiau fel hyn sy'n mynegi syniadau dyneiddiol, ysbrydol dwys mewn modd mor ddiymdrech.

***"By turns lyrical, impressionistic and profound..."*** L.A. Times

**Winner of the Silver Bear for Best Script at Berlin International Film Festival 2015**
**Enillydd y Silver Bear ar gyfer y Sgript Gorau yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Berlin 2015**

# ARSENAL (PG) £12 (£10)

**With live musical accompaniment by:**
**Gyda chyfeiliant cerddorol byw gan:**
**Bronnt Industries Kapital**

Director / Cyfarwyddwr: Oleksandr Dovzhenko
Starring / Yn serennu: Semyon Svashenko
Russia/Rwsia, 1929, 88 minutes/munud, B&W/Du a Gwyn

## Tuesday 15 5.45pm

Beautifully framed and shot, this visceral anti-war silent movie is brought to life by Guy Bartell's expertly judged, resonant score. The Great War (World War I) has brought devastation, heartache and hardship to the Ukrainian people. Timosh, a recently demobbed soldier, returns to his hometown Kiev amidst the celebrations of Ukrainian freedom. But Timosh challenges the local authorities by calling for the soviet system to be adopted. From its devastating opening sequence onwards you are acutely aware of the emotional impact of a completely different style of filmmaking. Anyone who saw the wonderful *Turksib* at WOW a couple of years ago will not want to miss this unique opportunity.

## Nos Fawrth 15 5.45yh

Wedi ei fframio a'i ffilmio'n hyfryd, mae'r ffilm fud ddwys hon yn erbyn rhyfel yn dod yn fyw trwy sgôr cysain a chelfydd Guy Bartell. Mae'r Rhyfel Mawr (y Rhyfel Byd Cyntaf) wedi dod â dinistr, torcalon a chaledi i bobl yr Wcráin. Mae Timosh, milwr sydd newydd ei ryddhau o'r fyddin, yn dychwelyd i'w dref enedigol Kiev yn ystod dathliadau rhyddid yr Wcráin. Ond mae Timosh yn herio'r awdurdodau lleol trwy alw am fabwysiadu'r system sofiet. O'i dilyniant agoriadol aruthrol, byddwch yn ymwybodol iawn o effaith emosiynol arddull hollol wahanol o greu ffilmiau. Ni fydd unrhyw un a wyliodd y ffantastig *Turksib* yn WOW ychydig flynyddoedd yn ôl am golli'r cyfle unigryw hwn.

***"the summit of Soviet cinema... one of the most poetic and visually beautiful of all Russian films"*** Chicago Tribune

Arsenal print restored by the Oleksandr Dovzhenko National Centre (ODNC) in Kyiv. Guy Bartell's score co-commissioned by the British Council and ODNC. Print Arsenal wedi ei adfer gan Ganolfan Genedlaethol Oleksandr Dovzhenko (ODNC) yn Kyiv. Sgôr Guy Bartell wedi ei gomisiynu gan y British Council ac ODNC.

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

# SWORN VIRGIN (15)

Director / Cyfarwyddwr: Laura Bispuri
Starring / Yn serennu: Alba Rohrwacher, Flonja Kodheli, Lars Eidinger
Albania/Kosovo, 2015, 90 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

F
RATED

## Tuesday 15 8.15pm

This is the delicately observed, beautifully realized story of Hana who follows an old Albanian tradition and becomes a sworn virgin to escape from an arranged marriage. After ten years living as man in the hostile Albanian mountains a trip to Italy opens up the tantalizing, but also terrifying possibility of a new life. This features a subtle central performance that conveys the troubled nature of Hana/Mark's existence and her growing sense of excitement as she relearns how to act as a woman. Sensitively exploring issues of gender identity, self-image and cultural expectations, this also delivers a touching, hopeful portrait of tentative liberation.

## Nos Fawrth 15 8.15yh

Dyma i chi stori sydd wedi ei harsylwi'n gynnil, ac wedi ei gwireddu'n hyfryd am Hana, sy'n dilyn hen draddodiad Albanaidd trwy ddod yn wyryf dan lw er mwyn dianc rhag priodas wedi ei threfnu. Ar ôl deng mlynedd yn byw fel dyn ym mynyddoedd anghyfeillgar Albania, mae ymweliad â'r Eidal yn amlygu'r posibilrwydd pryfoclyd er arswydus o fywyd newydd. Mae'r ffilm yn cynnwys perfformiad canolog cynnil sy'n cyfleu natur flin bodolaeth Hana/Mark a'i hymdeimlad cynyddol o gyffro wrth iddi ail-ddysgu sut i ymddwyn fel menyw. Yn archwilio agweddau o hunaniaeth rhyw, hunan ddelwedd a disgwyliadau diwylliannol mewn modd sensitif, mae'r ffilm hefyd yn cyflwyno portread teimladwy, llawn gobaith o ryddhad petrus.

***"A subtle, compassionate study of gender & culture"*** The Playlist

**Winner Nora Ephron Prize at Tribeca Film Festival 2015**
**Enillydd Gwobr Nora Ephron yng Ngŵyl Ffilm Tribeca 2015**

**In association with the Iris Prize Festival.**
**Mewn cydweithrediad â Gŵyl Gwobr Iris.**

IRIS PRIZE Festival

# TANNA (12A)

Directors / Cyfarwyddwyr: Martin Butler, Bentley Dean
Starring / Yn serennu: The Yakel tribe / Y llwyth Yakel
Australia / Awstralia / Vanuatu, 2015, 104 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

F RATED

## Wednesday 16 5.45pm

Set against the rain forest and stark volcanic slopes of the Pacific Island paradise of Vanuatu, this is a Romeo & Juliet tale of how two young lovers challenge their cultural tradition of arranged marriages in the name of love. Performed by an extraordinary cast from the Yakel tribe, who give a sprightly rendition of their own true story, this visually ravishing film tells the story of Wawu, a young woman who has fallen in love with her chief's grandson, Dain. When her family forbids their marriage they run away, causing further trouble with a neighbouring clan as an inter-tribal war threatens. A rare chance to see a visually and culturally rich film from the South Pacific, I can promise that this is like nothing you've ever seen before.

## Nos Fercher 16 5.45yh

Wedi ei gosod yn erbyn y fforestydd glaw a llethrau garw'r folcanoau ar baradwys ynysol Vanuatu yn y Môr Tawel, dyma i chi stori Romeo a Juliet am sut mae dau gariad ifanc, mewn enw cariad, yn herio eu traddodiad diwylliannol o briodasau sydd wedi eu trefnu. Wedi ei pherfformio gan bobl llwyth Yakel, sy'n rhoi dehongliad hoenus o'u stori wir eu hunain, mae'r ffilm weledol hardd hon yn adrodd hanes Wawu, menyw ifanc sydd wedi syrthio mewn cariad gyda Dain, ŵyr pennaeth ei llwyth. Pan mae ei theulu yn gwahardd eu priodas, maent yn ffoi, gan achosi helynt pellach gyda llwyth cyfagos wrth i ryfel rhyng-dylwythol fygwth. Cyfle prin i weld ffilm weledol a diwylliannol cyfoethog o De'r Pasiffig, addawaf ei bod yn wahanol iawn i unrhyw beth arall byddwch wedi ei gweld o'r blaen.

***"a beautiful odyssey with strong spiritual undertones."*** Screen International

**Winner International Critics Week Award for Best Director Venice Film Festival 2015**
**Enillydd Gwobr Wythnos y Beirniaid Rhyngwladol a Sinematograffi Gorau Gŵyl Ffilm Fenis 2015**

Book online / Archebwch ar-lein: **www.aberystwythartscentre.co.uk/whats-on/film**

# THARLO (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Pema Tseden
Starring / Yn serennu: Shide Nyima, Yang Shik Tso
Tibet, 2015, 123 minutes/munud, subtitles/isdeitlau, B&W/Du a Gwyn

## Wednesday 16 8.15pm

Shot in long takes in striking black and white, this beguiling fable subtly explores the changing face of Tibet. Leaving the solitude of the high Himalayas behind, Tharlo, a simple shepherd has to go into town to get his ID photo taken. There he meets the vivacious Yangchuo, a thoroughly modern Tibetan who loves to smoke, drink and go karaoke singing. Smitten and disoriented, Tharlo returns to tend his sheep in the vast empty mountains but can't forget the lure of a different life. Nyima's compelling central performance brilliantly captures Tharlo's confusion at his fateful first encounter with a new world.

## Nos Fercher 16 8.15yh

Wedi ei ffilmio mewn golygfeydd du a gwyn hir, trawiadol, mae'r chwedl gyfarwyddol hon yn archwilio'n gynnil wyneb newidiol Tibet. Gan adael unigedd uchelderau'r Mynyddoedd Himalaya y tu ôl, mae'n rhaid i Tharlo, bugail syml, mynd i'r dref i gael ffotograff adnabod wedi ei dynnu. Yna cyfarfu â'r Yangchuo nwyfus, Tibetiad hollol fodern sy'n hoffi ysmygu, yfed a chanu caraoce. Wedi ei gyfareddu a'i ddrysu, mae Tharlo'n dychwelyd i fugeilio'i braidd ymhlith y mynyddoedd eang gwag, ond ni all anghofio atyniad bywyd gwahanol. Cipia perfformiad canolog gafaelgar Nyima ddryswch Tharlo i'r dim yn ei gyfarfod tyngedfennol cyntaf hwn gyda byd newydd.

*"a beautifully judged picture"* Wendy Ide, Screen International

**Winner Best Screenplay Golden Horse Festival 2015**
**Enillydd Sgript Ffilm Orau yng Ngŵyl y Golden Horse 2015**

# THIRST (15)

Director / Cyfarwyddwr: Svetla Tsotsorkova
Starring / Yn serennu: Monika Naydenova, Alexander Benev, Svetlana Yancheva
Bulgaria / Bwlgaria, 2015, 90 minutes/munud, subtitles/isdeitlau

F RATED

## Thursday 17 5.45pm

This is the kind of small gem of a film that we love to discover for you. In an isolated house in the parched back of beyond in Bulgaria a mother supports her husband and teenage son by washing sheets for local hotels. When she gets a man and his feisty teenage daughter to drill for water, the family is jolted out of their daily routine. Focusing on the nonverbal elements of the relationships, this emphasizes looks and unspoken exchanges to reveal how much of what they do is outside their conscious control. A beautifully crafted film that makes excellent use of light, shade and the surrounding landscape, this engaging, poetic character study takes some unexpected turns.

## Nos Iau 17 5.45yh

Mewn tŷ arunig mewn ardal anghysbell crinsych ym Mwlgaria mae mam yn cefnogi ei gŵr a'i mab yn ei arddegau trwy olchi dillad gwely i westai lleol. Pan mae'n talu dyn a'i ferch ifanc i ddrilio am ddŵr, caiff y teulu ei ysgytio o'i drefn ddyddiol. Gan ganolbwyntio ar elfennau aneiriol y perthnasau, mae'r ffilm yn pwysleisio edrychiadau a chyfnewidiadau ni chânt eu lleisio i ddatgelu cymaint o'r hyn a wnânt sydd y tu allan i'w rheolaeth ymwybodol. Ffilm sydd wedi ei chrefftio'n hardd sy'n gwneud defnydd ardderchog o olau, cysgod a'r tirlun amgylchynol, mae'r astudiaeth gymeriad ddymunol, farddonol hon yn cymryd ambell dro annisgwyl.

***"Rarely does a debut feature come along with the visual and narrative confidence of Thirst"*** Variety

# THIS CHANGES EVERYTHING (PG)

Director / Cyfarwyddwr: Avi Lewis
Starring / Yn serennu: Naomi Klein
Canada/USA/Yr Unol Daleithiau, 2015, 89 minutes/munud

F RATED

## Thursday 17 8.15pm

What if confronting the climate crisis is the best chance we'll ever get to build a better world? Based on her bestselling book, Naomi Klein argues that we can seize the crisis of climate change to transform our ecocidal economic system into something much better. By presenting seven powerful portraits of communities on the front line, Klein connects the carbon in the air with the economic system that put it there. It can often seem an overwhelmingly difficult task to repair our damaged world, but Klein gives hope that this can be done if we change our way of thinking – 'system change not climate change'.

## Nos Iau 17 16 8.15yh

Beth os mai wynebu'r argyfwng hinsawdd yw'r cyfle gorau y cawn i adeiladu byd gwell? Wedi seilio ar ei llyfr llwyddiannus, mae Naomi Klein yn dadlau y gallwn defnyddio'r argyfwng mewn hinsawdd er mwyn trawsffurfio ein system economaidd sy'n dinistrio'r amgylchedd i rywbeth llawer gwell. Trwy gyflwyno saith portread nerthol o gymunedau ar y llinell flaen, mae Klein yn cysylltu'r carbon yn yr awyr â'r system economaidd a'i rhoddodd yno. Yn aml gall deimlo fel tasg lethol anodd i adfer ein byd difrodedig, ond mae Klein yn rhoi gobaith y gellir gwneud hyn os newidiwn ein ffordd o feddwl - 'newid system nid newid hinsawdd'.

***"An unsettling but ultimately encouraging documentary about global warming and grassroots activism."*** Variety

**With a panel discussion afterwards**
**Trafodaeth banel i ddilyn**

# WOMEN AND WORLD CINEMA

Developed by Bath Film Festival and now expanding across the UK, the F-Rating is a new film rating that highlights films made by and featuring women. Any film that answers yes to one of these questions is awarded the F-Rating stamp of approval.

**1. Does it have a female director?**
**2. Is it written by a woman?**
**3. Are there significant female characters on screen in their own right?**

Rather like the Fairtrade stamp, the F-Rating is there to give you the opportunity to vote with your seat, and support women in film.

# MENYWOD A SINEMA'R BYD

Wedi ei ddatblygu gan Ŵyl Ffilm Caerfaddon a nawr yn lledaenu ar draws y DU, mae Statws F yn radd ffilm newydd sy'n amlygu ffilmiau wedi eu creu gan ac yn cynnwys menywod. Bydd unrhyw ffilm sy'n ateb unrhyw un o'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol yn derbyn sêl bendith Statws F.

**1. A oes ganddi gyfarwyddwr benywaidd?**
**2. Ai menyw sydd wedi ei hysgrifennu?**
**3. A oes 'na gymeriadau benywaidd sylweddol yn ymddangos ar y sgrin?**

Yn debyg i'r stamp Masnach deg, mae Statws F yno i roi'r cyfle i chi bleidleisio gyda'ch sedd, ac i gefnogi menywod mewn ffilm.

# BOOK YOUR WOW TICKETS NOW!

Cinema tickets:
**£6.50** Adult / **£6** OAP
**£5.50** Student and Under 18's
**£5** Silver Screenings
(Free Tea and Coffee)

Box Office: **01970 62 32 32**
Open: Mon – Sat (10am – 8pm)
Sun (1.30 pm – 5.30pm)

Online at:
**www.aberystwythartscentre.co.uk**

Aberystwyth Arts Centre
Aberystwyth University
Penglais Hill, Aberystwyth SY23 3DE

# ARCHEBWCH EICH TOCYNNAU WOW NAWR!

Prisiau tocynnau sinema:
**£6.50** Oedolion / **£6** Pensiynwyr
**£5.50** Myfyrwyr a dan 18
**£5** Tocynnau 'Silver Screenings'
(Te a Choffi am ddim)

Swyddfa Docynnau: **01970 62 32 32**
Ar agor: Llun – Sad (10am – 8pm)
Sul (1.30 pm – 5.30pm)

Ar-lein ar:
**www.aber.ac.uk/artscentre**

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Prifysgol Aberystwyth University
Rhiw Penglais, Aberystwyth SY23 3DE

## WOW FESTIVAL PASS £50*
(£40 concessions)

*Offer excludes *Arsenal*, but WOW Festival Pass holders can book for *Arsenal* at the concessionary rate

## PAS GŴYL FFILM WOW £50*
(£40 consesiynau)

*Cynnig yn eithrio *Arsenal*, ond gall deiliaid Pas Gŵyl WOW archebu tocynnau ar gyfer *Arsenal* ar y gyfradd gonsesiynol.

WOW Wales One World Film Festival is an initiative of David Gillam, Aberystwyth Arts Centre and Taliesin Arts Centre.
Mae Gŵyl Ffilmiau WOW Cymru a'r Byd yn Un yn fenter ar y cyd rhwng David Gillam, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chanolfan Gelfyddydau Taliesin.

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Taliesin

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

BFI Film Forever The National Lottery

ffilm Cymru Wales

Film Hub Wales Canolfan Ffilm Cymru

Film Audience Network The National Lottery

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Noddir gan Llywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

WOW 2016 WALES ONE WORLD FILM FESTIVAL GŴYL FFILM CYMRU A'R BYD YN UN

# Diary March 2016 / Dyddiadur Mis Mawrth 2016

**Thursday 10 / Dydd Iau 10**

8.15pm/yh **Yr Ymadawiad/The Passing (15)**

**Friday 11 / Dydd Gwener 11**

5.45pm/yh **Rams (15)**
8.15pm/yh **Paths of the Soul (PG)**

**Saturday 12 / Dydd Sadwrn 12**

2.15pm/yp **Lamb (PG)**
5.30pm/yh **Court (PG)**
8.00pm/yh **Our Little Sister (PG)**

**Sunday 13 / Dydd Sul 13**

6.00pm/yh **Gypsy (15)**

**Monday 14 / Dydd Llun 14**

5.45pm/yh **Neon Bull (15)**
8.15pm/yh **The Pearl Button (12A tbc)**

**Tuesday 15 / Dydd Mawrth 15**

5.45pm/yh **Arsenal (PG)**
8.15pm/yh **Sworn Virgin (15)**

**Wednesday 16 / Dydd Mercher 16**

2.30pm/yp **Rams (15)**
5.45pm/yh **Tanna (12A)**
8.15pm/yh **Tharlo (PG)**

**Thursday 17 / Dydd Iau 17**

5.45pm/yh **Thirst (15)**
8.15pm/yh **This Changes Everything (PG)**


The Pearl Button

Tanna


Arsenal